Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cymorthdaliadau'r Bwyty

19 Rhagfyr 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

*Hoffwn wneud cais am y ffigurau ar gyfer y cymorthdaliadau blynyddol a dalwyd i Gynulliad Cymru am fwyd a diod yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gan nad yw'n ymddangos eu bod ar gael i'r cyhoedd.*

*i) Beth yw maint cymhorthdaliadau trethdalwyr ar gyfer y bwyd a diod a weinir yng Nghynulliad Cymru yn flynyddol?*

*ii) Beth yw'r gyllideb flynyddol ar gyfer bwyd a diod a weinir yng Nghynulliad Cymru?*

Caiff y bwyd a diod a weinir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd ei ddarparu gan gontractwr allanol ar ffurf cytundeb arlwyo. Mae'r cytundeb yn sicrhau bod ystod eang o wasanaethau arlwyo ar gael ar Ystâd y Cynulliad, gan gynnwys bwyty'r staff, siop goffi, bwyty ac ystafelloedd te Aelodau'r Cynulliad a chaffi i'r cyhoedd yn y Senedd.

Yn unol â hynny, darperir gwasanaethau arlwyo ar gyfer tua 800 aelod o staff sy'n gweithio ar Ystâd y Cynulliad ac i ymwelwyr sy'n ymweld â'r caffi cyhoeddus. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys darparu oriau agor estynedig i sicrhau bod cyfleusterau arlwyo yn dal ar gael i Aelodau a staff pan fo busnes y Cynulliad yn rhedeg y tu hwnt i oriau swyddfa arferol (er enghraifft, pan fo'r Cyfarfod Llawn yn rhedeg yn hwyr i'r nos). Mae caffi cyhoeddus y Senedd ar agor saith diwrnod yr wythnos.

Fel yr amlinellwyd uchod, contractwr allanol sy'n darparu

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

gwasanaethau arlwyo i'r Cynulliad ac mae cyfanswm y gyllideb / cymhorthdal blynyddol ar gyfer darparu cyfleusterau a gwasanaethau arlwyo i'r Cynulliad am y pum mlynedd diwethaf fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **Cyllideb / Cymhorthdal Arlwyo** |
|---|---|
| 2009-10 | £368,110 |
| 2010-11 | £339,656 |
| 2011-12 | £336,800 |
| 2012-13 | £310,000 |
| 2013-14 | £318,000 |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**

**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF